Llywodraeth Cymru | Astudiaeth Rhanbarthau ac Ardaloedd Gwledig y FfDC


3. Gogledd Cymru – Adroddiad Cryno Gweithdy Rhanbarthol

Llanwrst, 29 Tachwedd 2018

264350-00 | Cyhoeddi | 29 Ionawr 2019








Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ARUP

Cynnwys

Tudalen

1 Cyflwyniad 1
1.1 Cyd-destun yr Astudiaeth 1
1.2 Cynnwys Rhanddeiliaid 2
1.3 Diben 2
1.4 Strwythur 3

2 Trefniadau a Mynychwyr 4
2.1 Manylion 4
2.2 Y Gymraeg 4
2.3 Agenda 4
2.4 Cyflwyniad 5
2.5 Gweithgareddau 5
2.6 Cyfranogwyr 6

3 Canlyniadau Gweithgaredd 1 – ymarferiad 'dotiau gludiog' 7
3.1 Diffinio meysydd polisi ar raddfeydd gofodol gwahanol 7
3.2 Blaenoriaethu materion trawsffiniol 1
3.3 Diffinio safleoedd cyflogaeth mawr 2
3.4 Diffinio canolfannau manwerthu a masnachol mawr 2
3.5 Crynodeb 4

4 Canlyniadau Gweithgaredd 2 - SWOT 5
4.1 Cymdeithasol a Diwylliannol 5
4.2 Economaidd 9
4.3 Amgylcheddol 12
4.4 Crynodeb 14

Atodiadau

Atodiad A

Rhanbarth Gogledd Cymru – Cyflwyniad Gweithdy

Atodiad B

Allbynnau'r Gweithgaredd Dotiau Gludiog

Atodiad C

Ffotograffau Gweithgaredd SWOT

Atodiad CH


Rhanbarth Gogledd Cymru – Cofrestr Digwyddiadau

1 Cyflwyniad

1.1 Cyd-destun yr Astudiaeth

Yn dilyn yr ymgynghoriad ar yr Opsiwn a Ffefrir ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) yn haf 2018, mae Llywodraeth Cymru bellach wrthi'n datblygu'r FfDC Drafft a bwriedir cynnal ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2019.

Fel yr amlinellwyd yn yr Opsiwn a Ffefrir, bwriedir i'r FfDC gynnwys polisïau cenedlaethol a rhanbarthol ar draws y rhanbarthau diffiniedig. Bydd y tri rhanbarth yn cwmpasu Gogledd, Canolbarth a De-orllewin a De-ddwyrain Cymru fel y dangosir yn Ffigur 1.



Ffigur 1 Rhanbarthau'r FfDC

Mae hyn yn adlewyrchu'r rhanbarthau a nodwyd gan Gynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar yr Economi. Mae Prif Swyddogion Rhanbarthol wedi'u penodi ar gyfer pob rhanbarth ac maent wedi dechrau ar waith i ddatblygu ymagwedd Llywodraeth Cymru at wella gweithio a chyflawni'n rhanbarthol. Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn hwyluso'r ymagwedd hon, ac yn darparu

fframwaith cyfreithiol ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) yn rhanbarthol.

O safbwynt rhanbarthol, mae rôl y FfDC yn cynnwys cefnogi cyflawni polisïau rhanbarthol Llywodraeth Cymru a chynllunio / cydweithredu strategol gwell rhwng Awdurdodau Cynllunio Lleol Cymru (ACLlau).

I gynorthwyo â datblygu'r FfDC a darparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer datblygu'r polisi (yn genedlaethol a rhanbarthol), penodwyd Arup yn ddiweddar i ymgymryd â gwaith ymchwil yn y maes hwn.

Bydd yr ymchwil yn sefydlu sylfaen dystiolaeth o gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau (SWOT) ym mhob rhanbarth, ac yn archwilio rôl y FfDC wrth ymateb i'r rhain, gan awgrymu'r ymyrraeth polisi fwyaf priodol (e.e. cynllunio ar lefel genedlaethol, ranbarthol, lleol neu gymunedol). Bydd yr ymchwil yn dod ag ystod o ddata a gwybodaeth ynghyd ar gyfer pob un o'r tri rhanbarth, gan gyflwyno hyn ar ffurf tablau ac yn ofodol. Yn bwysig, yn ogystal â chefnogi datblygu'r FfDC Drafft, bydd canlyniadau'r ymchwil hon yn cael eu defnyddio i gefnogi datblygu CDSau a CDLlau.

1.2 Cynnwys Rhanddeiliaid

Fel rhan o'r astudiaeth, mae Arup wedi arwain dwy ymagwedd at gynnwys rhanddeiliaid:

1. Fel rhan o'r gwaith casglu data / gwybodaeth, cysylltwyd ag Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru i ofyn am wybodaeth feintiol sydd ganddynt er mwyn llywio'r ymchwil. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, data ar gyflogaeth leol, tai a data amgylcheddol lle na fu modd casglu'r data hwn o ffynonellau cyhoeddedig; a

2. Fel rhan o'r broses SWOT ac wrth fynd ati i nodi blaenoriaethau rhanbarthol, gwahoddwyd 148 o sefydliadau i fynychu cyfres o ddigwyddiadau gweithdy, yn cynrychioli'r rheiny â diddordeb yn yr economi, cymdeithas, diwylliant a'r amgylchedd yng Nghymru. Canolbwyntiodd y gweithdai ar archwilio ystod o feysydd polisi a materion, yn ogystal â thrafodaethau ynglŷn â'r cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau (SWOT) ym mhob rhanbarth. Roedd y ffocws ar ofyn i grwpiau rhanddeiliaid beth fyddai'r FfDC yn gallu ei wneud i hyrwyddo'i gyfraniad i'r eithaf at lwyddiannau rhanbarthau Cymru yn y dyfodol.

1.3 Diben

Bydd y data / gwybodaeth a gesglir fel rhan o'r astudiaeth yn cael eu cyflwyno yn Adroddiad yr Astudiaeth. Mae'r Adroddiad Gweithdy hwn yn rhoi canlyniadau digwyddiad Rhanbarthol Gogledd Cymru ac yn darparu adroddiad ffeithiol am y digwyddiad, ei drafodaethau a'i ganfyddiadau cychwynnol.

Mae Adroddiadau Gweithdy ar wahân wedi'u paratoi ar gyfer digwyddiadau rhanbarthol Canolbarth a De-orllewin a De-ddwyrain Cymru.

Darperir dadansoddiad SWOT yn Adroddiad llawn yr Astudiaeth.

1.4 Strwythur

Cyflwynir yr Adroddiad Gweithdy hwn yn yr adrannau canlynol:

- Mae Adran 2 yn disgrifio manylion y gweithdai a'r rheiny sy'n gysylltiedig;
- Mae Adran 3 yn darparu canlyniadau'r gweithgaredd rhanddeiliaid cyntaf, gan helpu i ystyried meysydd polisi gwahanol, materion trawsffiniol, sut dylid eu diffinio ac ar ba raddfa; ac
- Mae Adran 4 yn darparu canlyniadau'r ail weithgaredd rhanddeiliaid, yn cynnwys trafodaethau â ffocws am gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol y rhanbarth.

2 Trefniadau a Mynychwyr

2.1 Manylion

Archwiliwyd amryw leoliadau, mannau cyfarfod, dyddiadau ac amserau i gynnal gweithdai rhanbarthol yn nhri Rhanbarth y FfDC, gan ystyried capasiti, hygyrchedd a rhaglen yr astudiaeth. Trefnwyd digwyddiad Gogledd Cymru fel a ganlyn:

Lleoliad	Llanwrst
Man Cyfarfod	Canolfan Fusnes a Chynadledda Glasdir
Dyddiad	29 Tachwedd 2018
Amser	10.00 – 12.30

2.2 Y Gymraeg

Darparwyd holl ddeunyddiau'r digwyddiad yn Gymraeg a Saesneg, a gwahoddwyd mynychwyr i gyfranogi yn eu dewis iaith.

I hwyluso hyn, cefnogwyd Arup gan Trosol a ddarparodd wasanaethau cyfieithu ysgrifenedig.

Yn ystod y gweithgareddau grŵp yn y gweithdai, roedd unrhyw un a oedd yn dymuno cyfathrebu yn Gymraeg yn gallu gwneud hynny diolch i wasanaeth cyfieithu ar y pryd, a ddarparwyd gan Trosol hefyd.

2.3 Agenda

Roedd strwythur y gweithdy yn canolbwyntio ar yr eitemau canlynol:

Eitem	Disgrifiad
Cyflwyniadau	Cyflwynwyd tîm y prosiect a gofynnwyd i randdeiliaid nodi eu henw a'u sefydliad yn eu tro, er mwyn helpu'r cyfranogwyr werthfawrogi amrywiaeth ac ystod y diddordebau cysylltiedig. Amlinellwyd manylion y trefniadau ymarferol hefyd.
Yr Astudiaeth	Pennodd Llywodraeth Cymru y cyd-destun ar gyfer yr astudiaeth, gan ddarparu'r cefndir i'r FfDC, yr ymgynghoriad arno, cwmpas ymchwil Arup, ymagwedd at Ranbarthau'r FfDC a rhaglenni.
Data a thueddiadau	Eglurodd Arup y mathau o wybodaeth a nodweddion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol a'r mapiau gofodol a geisiwyd, ac sy'n llywio'r astudiaeth. Mae tueddiadau defnyddiol i ddangos cymariaethau ar hyd rhanbarthau Cymru yn gosod cyd-destun ardal yr astudiaeth cyn cynnal y gweithgareddau rhanddeiliaid.
Diffiniadau data a materion	Gweithgaredd 1 - Ymarferiad 'dotiau gludiog' - fe wnaeth hwn helpu rhanddeiliaid i rannu'u barnau ynglŷn â graddfeydd perthnasol a diffiniadau meysydd polisi, fel ystyriaethau pwysig ar gyfer datblygu'r FfDC.

Eitem	Disgrifiad
SWOT	Gweithgaredd 2 – Ymarferiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau – fe wnaeth hwn hwyluso trafodaethau am faterion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol sy'n berthnasol i'r rhanbarth.
Camau nesaf	Fe wnaeth Arup a Llywodraeth Cymru gloi'r digwyddiad trwy ddiolch i gyfranogwyr am gymryd rhan, gan esbonio sut gallent barhau'n gysylltiedig a beth yw'r camau nesaf ar gyfer yr astudiaeth a'r FfDC. Roedd hyn yn cynnwys y byddai Adroddiad Gweithdy ffeithiol yn cael ei rannu, cyfarfodydd rhanddeiliaid â ffocws yn y dyfodol am brosiectau a chynlluniau, byddai data'n cael ei gasglu i'w gyhoeddi drwy'r Porth Lle, ac Adroddiad Astudiaeth ac amserlen ar gyfer cyhoeddi'r FfDC.

2.4 Cyflwyniad

Roedd cyflwyniad PowerPoint yn cyd-fynd â'r eitemau agenda uchod, yn darparu sbardunau a thestun a delweddau defnyddiol. Cynhwysir copi yn Atodiad A.

2.5 Gweithgareddau

Gofynnwyd i randdeiliaid gyfranogi mewn dau weithgaredd fel rhan o'r gweithdy, ac fe'u disgrifir yn eu tro isod.

2.5.1 Gweithgaredd 1 – Ymarferiad 'dotiau gludiog'

Er mwyn pennu'r meysydd polisi a'r materion sydd o'r diddordeb mwyaf yn y rhanbarth, a ph'un ai'r FfDC yw'r mecanwaith priodol ai peidio i helpu i fynd i'r afael â'r rhain, roedd sesiwn ryngweithiol yn cynnwys gofyn i randdeiliaid helpu:

- Diffinio graddfa briodol ymyrraeth polisi (e.e. Cenedlaethol, Rhanbarthol, Lleol neu Gymunedol) ar draws ystod o themâu;
- Blaenoriaethu materion trawsffiniol;
- Diffinio safleoedd cyflogaeth mawr; a
- Diffinio canolfannau gweithgarwch manwerthu a masnachol mawr.

Yn ystod y gweithgareddau hyn, darparwyd nifer union benodol o ddotiau gludiog i gyfranogwyr i'w gosod ar gyfres o daflenni gweithgareddau, er mwyn cofnodi'u dewisiadau a'u dymuniadau yn briodol.

Darperir copi o'r gweithgareddau wedi'u cwblhau yn Atodiad B.

Rhoddir eglurhad pellach ochr yn ochr â chrynodeb o'r canlyniadau ym Mhennod 3 yr adroddiad hwn.

2.5.2 Gweithgaredd 2 – SWOT

Ffurfiwyd tri grŵp gan y mynychwyr, ac yn eu tro aethant ati i drafod y rhanbarth mewn perthynas â phob un o'r themâu bras canlynol, sy'n adlewyrchu pedair colofn datblygu cynaliadwy yng Nghymru:

1. Cymdeithasol a Diwylliannol;
2. Economaidd; ac
3. Amgylcheddol.

Cafodd y sesiynau eu hwyluso a'u nodi'n ysgrifenedig er mwyn helpu annog trafodaeth a chofnodi'r materion wrth iddynt gael eu codi.

Treuliodd bob grŵp rhwng 20 a 30 munud yn trafod pob un o'r themâu hyn.

Darperir ffotograffau o'r ymarferiad a chofnodion o'r allbynnau yn Atodiad C, a rhoddir crynodeb o'r trafodaethau ym Mhennod 4 yr adroddiad hwn.

2.6 Cyfranogwyr

2.6.1 Mynychwyr

Fe wnaeth 23 o gyfranogwyr fynychu'r gweithdy, yn cynrychioli'r sefydliadau a ganlyn:

- Plant yng Nghymru
- Cartrefi Cymunedol Cymru
- Cymdeithas Cludiant Cymunedol
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Bwrdeistref Sir Ddinbych
- Dŵr Cymru Welsh Water
- Dyfodol i'r Iaith
- Cyngor Sir Gwynedd
- Hafren Dyfrdwy
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Grŵp Tai Pennaf

Cynhwysir copi o'r gofrestr digwyddiadau yn Atodiad CH.

2.6.2 Ymddiheuriadau

Roedd y rhai a gafodd wahoddiad ond nad oeddent yn gallu mynychu yn cynnwys:

- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd
- Associated British Ports
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru
- Sefydliad y Peirianwyr Sifil
- Network Rail
- Chwaraeon Cymru
- Sefydliad Bevan
- Comisiynydd y Gymraeg
- Cymdeithas Chwaraeon Cymru

3 Canlyniadau Gweithgaredd 1 – ymarferiad 'dotiau gludiog'

Gellir gweld holl allbynnau'r gweithgaredd hwn yn Atodiad B, a darperir crynodeb isod.

3.1 Diffinio meysydd polisi ar raddfeydd gofodol gwahanol

Gofynnwyd i gyfranogwyr osod eu dot gludiog o fewn colofn neu ar linell rannu i gynrychioli'i dewis orau o ran i ba (lefel) graddfeydd gofodol y dylai meysydd polisi gwahanol gael eu diffinio.

Mae'r canlyniadau, fel y'u dangosir yn llawn yn Atodiad B, yn dangos amrywio ar draws y graddfeydd gofodol gwahanol ond gyda chlystyrau, gan helpu dangos bod rhywfaint o gonsensws mewn mannau.

At ddibenion yr adroddiad hwn, mae marciwr glas wedi'i droslunio gan Arup ar gopi gwag o'r daflen gweithgaredd i gynrychioli a dangos y clystyrau yn y modd gorau. Mae hyn yn ceisio helpu hysbysu Llywodraeth Cymru ar ba raddfa yr oedd y mynychwyr yn ystyried y dylai pob maes polisi gael eu diffinio'n gyffredinol. Dangosir hyn isod:

Maes polisi	Cenedlaethol	Rhanbarthol	Awdurdod Lleol	Cymunedol	Dim (mater heb fod yn ymwneud â chynllunio neu ymdrinnir ag ef orau yn rhywle arall)
Hierarchaeth aneddiadau					
Twf poblogaeth (rhagolygon)					
Materion strategol iechyd a lles					
Materion strategol y Gymraeg					
Angen am Dai Fforddiadwy					
Dyraniadau tai (unedau)					
Adnoddau naturiol / asedau amgylcheddol strategol					

Maes polisi	Cenedlaethol	Rhanbarthol	Awdurdod Lleol	Cymunedol	Dim (mater heb fod yn ymwneud â chynllunio neu ymdrinnir ag ef orau yn rhywle arall)
Materion strategol cynllunio morol					
Sectorau economaidd allweddol					
Safleoedd cyflogaeth strategol					
Amcanion neu dargedau trafnidiaeth strategol					
Amcanion neu dargedau teithio llesol strategol					
Egwyddorion strategol creu lleoedd					
Cyngor/gofynion dylunio strategol					
Asedau strategol treftadaeth adeiledig					
Materion strategol yn ymwneud â llifogydd					
Materion strategol yn ymwneud â mwynau					
Materion gwastraff strategol					
Prosiect ynni strategol					
Materion strategol cysylltedd digidol					

Yn gryno, nid oedd y cyfranogwyr o'r farn y dylai unrhyw feysydd polisi gael eu diffinio ar y lefel gymunedol neu y byddid yn ymdrin â hwy orau yn rhywle arall.

Mae'r canlyniadau yn dynodi bod consensws cyffredinol yng Ngogledd Cymru fod meysydd polisi a ddylai gael eu hystyried ar y **lefel genedlaethol yn unig** yn cynnwys:

a) Materion strategol cynllunio morol

b) Egwyddorion strategol creu lleoedd

c) Cyngor/gofynion dylunio strategol

Ar y lefel **genedlaethol i ranbarthol**:

a) Twf poblogaeth (rhagolygon)

b) Materion strategol iechyd a lles

c) Materion strategol y Gymraeg

ch) Adnoddau naturiol / asedau amgylcheddol strategol

d) Materion strategol cynllunio morol

dd) Sectorau economaidd allweddol

e) Safleoedd cyflogaeth strategol

f) Amcanion neu dargedau trafnidiaeth strategol

ff) Egwyddorion strategol creu lleoedd

g) Cyngor/gofynion dylunio strategol

ng) Materion strategol yn ymwneud â llifogydd

h) Materion strategol yn ymwneud â mwynau

i) Materion gwastraff strategol

j) Prosiect ynni strategol

l) Materion strategol cysylltedd digidol

Ac ar y lefel **ranbarthol i leol**:

a) Hierarchaeth aneddiadau

b) Angen am dai fforddiadwy

c) Dyraniadau tai (unedau)

ch) Amcanion neu dargedau teithio llesol strategol

d) Asedau strategol treftadaeth adeiledig

Heb fod yn rhan o'r ymarferiad gwreiddiol, ond a ychwanegwyd yn amodol ar drafodaethau gyda chyfranogwyr, oedd ychwanegu 'seilwaith dŵr' a 'datgarboneiddio' at y meysydd polisi. Penderfynodd rhai ddyrannu'u dotiau gludiog i'r ymarferiad hwn, a'r consensws ar gyfer y ddau oedd y dylid eu hystyried ar y lefel ranbarthol a lleol.

3.2 Blaenoriaethu materion trawsffiniol

Gofynnwyd i gyfranogwyr osod eu dot gludiog o fewn rhes er mwyn cynrychioli eu dewis orau o ran pa faterion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol gwahanol sydd bwysicaf fel mater trawsffiniol ar gyfer eu rhanbarth. Roedd cyfranogwyr yn gallu dewis y tri opsiwn yr oeddent yn eu ffafrio o saith o opsiynau.

Mae'r canlyniadau, a ddangosir yn llawn yn Atodiad B, yn dangos y dewiswyd pob un o'r opsiynau gwahanol o leiaf unwaith, ond gyda chonsensws amlwg fod rhai mathau o faterion trawsffiniol yn cael eu hystyried yn bwysicach na rhai eraill ar gyfer y cyfranogwyr.

At ddibenion yr adroddiad hwn, darparwyd cyfanswm cyfrifiad er mwyn dangos y dewisiadau. Mae hyn yn ceisio helpu hysbysu Llywodraeth Cymru ynghylch pa faterion polisi trawsffiniol sydd bwysicaf yn y rhanbarth. Dangosir hyn isod:

Cysylltedd	Nifer o weithiau y dewiswyd
Seilwaith ynni	**10**
Cyflogaeth / man gweithio	**8**
Tai a chymunedau	**5**
Llafur / cyflogeion / sgiliau	**10**
Manwerthu / masnachol a hamdden	**1**
Gwasanaethau a chyfleusterau	**3**
Trafnidiaeth a theithio	**16**

3.3 Diffinio safleoedd cyflogaeth mawr

Gofynnwyd i gyfranogwyr osod eu dot gludiog ar ran o daflen waith er mwyn cynrychioli eu dewis orau o ran pa faint/graddfa yr ystyrir bod safleoedd cyflogaeth yn 'fawr' yn eu rhanbarth.

Mae'r canlyniadau, a ddangosir yn llawn yn Atodiad B, yn dangos bod yr holl gyfranogwyr o'r farn fod safle cyflogaeth 'mawr' yng Ngogledd Cymru yn fwy na 10 hectar.

At ddibenion yr adroddiad hwn, darparwyd cyfanswm cyfrifiad er mwyn dangos y dewisiadau. Mae hyn yn ceisio helpu hysbysu Llywodraeth Cymru ynghylch sut gallai'r FfDC helpu orau i lunio safleoedd cyflogaeth mawr (neu strategol) ar draws y rhanbarthau. Dangosir hyn isod:

Graddfa Safle Cyflogaeth	Nifer o weithiau y dewiswyd
50+ hectar	**2**
Rhwng 20 a 50 hectar	**2**
20 hectar	**5**
Rhwng 10 ac 20 hectar	**3**
10 hectar	**10**
Llai na 10 hectar	**0**

Rydyn yn cydnabod mai dim ond un ffordd o ddiffinio safleoedd mawr yw graddfa ac y gallai ffactorau eraill gael eu hystyried. Trafodir y diffiniad hwn yn ehangach yn Adroddiad yr Astudiaeth.

3.4 Diffinio canolfannau manwerthu a masnachol mawr

Gofynnwyd i gyfranogwyr osod eu dot gludiog o dan ran o daflen waith er mwyn cynrychioli eu dewis orau o ran pa raddfa yr ystyrir bod canolfannau manwerthu a masnachol yn 'fawr' yn eu rhanbarth. Ategwyd hyn gan dri map:

1. Map A: yn dangos canolfannau lle cyflogir 3,000 neu fwy yn y sector manwerthu / masnachol;
2. Map B: 2,000 neu fwy; a

3. Map C: 1,000 neu fwy.

Mae'r mapiau a'r canlyniadau, a ddangosir yn llawn yn Atodiad B, yn dangos bod y cyfranogwyr wedi dewis pob un o'r opsiynau ond gydag amrywiadau yn canolbwyntio ar Fapiau B, C a rhyngddynt.

At ddibenion yr adroddiad hwn, darparwyd cyfanswm cyfrifiad er mwyn dangos y dewisiadau fel y'u detholwyd. Mae hyn yn ceisio helpu hysbysu Llywodraeth Cymru ynghylch sut gallai'r FfDC helpu orau i lunio canolfannau manwerthu a masnachol mawr (neu strategol) ar draws y rhanbarthau. Dangosir hyn isod: below:

	Nifer o weithiau y dewiswyd
Dros 3,000 o Gyflogeion	1
Dros 2,000 o Gyflogeion	11
Rhwng 1,000 a 2,000 o Gyflogeion	3
Dros 1,000 o Gyflogeion	7

3.5 Crynodeb

Mae'r canlyniadau yn dangos consensws cyffredinol yng Ngogledd Cymru o ran y canlynol:

1. Y dylai mwyafrif y meysydd polisi strategol gael eu diffinio ar y lefel genedlaethol neu ranbarthol ar wahân i hierarchaeth aneddiadau, angen am dai fforddiadwy a dyraniadau tai (unedau), amcanion neu dargedau teithio llesol strategol ac asedau strategol treftadaeth adeiledig - a ddylai gael eu diffinio ar y lefel leol i ranbarthol.
2. Mae'r materion trawsffiniol allweddol yn cynnwys trafnidiaeth a theithio, seilwaith ynni a llafur / cyflogeion / sgiliau yn ogystal â mannau cyflogaeth / gwaith.
3. Safle cyflogaeth mawr yng Ngogledd Cymru yw un sy'n 10 hectar neu fwy.
4. Canolfan gweithgarwch manwerthu a masnachol fawr yng Ngogledd Cymru yw un sy'n darparu mwy na 1,000 o swyddi.

4 Canlyniadau Gweithgaredd 2 - SWOT

Cafodd pobl eu hannog i ystyried Cryfderau / Gwendidau fel rhai ‘Cyfredol’ a Chyfleoedd / Bygythiadau fel rhai yn y ‘Dyfodol’.

Hwyluswyd trafodaethau SWOT a gwnaethpwyd nodiadau er mwyn helpu cofnodi pob un o’r pwyntiau a godwyd ac a rannwyd. Cyflwynir y rhain yn yr adrannau isod.

Darperir y dadansoddiad o’r SWOT yn Adroddiad yr Astudiaeth ar wahân.

Darperir ffotograffau o’r allbynnau a’r trafodaethau yn Atodiad C.

Mae Adran 4.4 yn rhoi crynodeb a throsolwg rhanbarthol.

4.1 Cymdeithasol a Diwylliannol

CRYFDERAU	GWENDIDAU
• Gwasanaethau bws lleol â chymhorthdal yn gweithio’n dda • Cerdded, hawliau tramwy cyhoeddus a chyfleusterau parc arfordirol • Diwydiant twristiaeth • Nifer uchel o siaradwyr Cymraeg a dysgwyr • Mantais ddiwylliannol yn sgil cryfder y Gymraeg • Diwydiant a chyflogaeth yn dda yng Ngogledd-ddwyrain Cymru • Ardal dda i deuluoedd • Amgylchedd naturiol a lle deniadol i fyw • Prisiau tai is • Ymddeol yng Ngogledd Cymru, gyda phoblogaeth hŷn yn symud i mewn • Amgylchedd naturiol a diwylliant yn ddeniadol ac yn effeithio’n gadarnhaol ar y marchnadoedd tai • Cysylltedd digidol yn galluogi symud cyflogaeth ar draws y sir • Addysg sy’n canolbwyntio ar ddiwydiant	• Tai fforddiadwy – deiliadaethau gwahanol, a welir fel unedau yn unig • Twristiaeth yn effeithio ar y cydbwysedd cymdeithasol – ail gartrefi, incymau • Fforddiadwyedd tai yn cael ei effeithio gan ail gartrefi • Niferoedd tai yn anaddas i raddau helaeth, ac nid yw’n adlewyrchu’r angen yn lleol • Cyflogaeth twristiaeth mewn ardaloedd o ansawdd gwael yn gyffredinol • Argaeledd tir, gwerth, ac yn cael ei arwain gan ddatblygwyr • Fframwaith iaith Gymraeg yw’r ymagwedd gywir, ond nid yw’n treiddio i seilwaith • Unigedd yn sgil diffyg trafnidiaeth dros bellteroedd hir • Gwerthoedd tir – hyfywedd – gwasgu’r ddarpariaeth tai fforddiadwy • Cyllid gan y Llywodraeth yn gyfyngedig • Anhawster ymgysylltu â darparwyr gwasanaethau • Anhawster ariannu gwasanaethau • Tlodi tanwydd • Cydbwysedd cymunedau yn cael ei effeithio gan ddemograffeg • Tanwerthu Gogledd Cymru fel lle i fyw

CYFLEOEDD	BYGYTHIADAU
• Hanfodol i dargedau iaith Llywodraeth Cymru • Darpariaeth a chyllid tai'r sector preifat yn erbyn y sector cyhoeddus • Ymgysylltu â chymunedau yn gynnar yn y broses ddatblygu • Cyfleoedd tai fforddiadwy gyda chartrefi gweigion, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC), y tu hwnt i'r sector preifat • Dysgu o ardaloedd eraill e.e. Ardal y Llynnoedd parthed gwarchodaeth leol a diwylliannol • Cynllunio sy'n canolbwyntio ar y rhanbarthol yn mynd i'r afael â materion cymdeithasol penodol • Rhwydwaith trafnidiaeth lleol i gyfleusterau lleol • Rhwymedigaeth ar ddatblygwyr i greu cyfleusterau cymunedol yn gynnar yn y broses • Hyrwyddo'r Gymraeg drwy ysgolion • Canolbwyntio lle mae adnoddau ar gael • Cymorth cymunedol i hunanariannu / cyfleusterau adeiladu • Cyni – effaith gwasanaethau ychwanegol • Ariannu cyfleusterau twristiaeth a hamdden • Cysylltedd digidol a gweithio o gartref • Cyfleoedd deniadol o ysgogiad teithio llesol a thwristiaeth • Archif cenedlaethol o rwydweithiau teithio • Seilwaith i alluogi ansawdd da o ran gweithio gartref a byw yng Nghymru • Ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg • Mae angen i rwydweithiau trafnidiaeth lleol dderbyn lefelau cymorth cenedlaethol • Hyrwyddo buddion prisiau tai is i'r eithaf	• Cadw addysg / sgiliau o fewn y rhanbarth • Pryderon ynghylch y Gymraeg yn dirywio • Gweithwyr Ewropeaidd, alltudion yn dychwelyd i'r ardal ar ôl Brexit • Cyflogaeth a thrafnidiaeth yn effeithio ar gymunedau cytbwys • Bygythiadau i iaith a diwylliant yn sgil newidiadau / bygythiadau i amaethyddiaeth • Ffocws ar y math o dai yn ogystal ag unedau • Angen am gymunedau / cartrefi gwarchod sy'n addas ar gyfer pobl hŷn • Poblogaeth sy'n heneiddio – goblygiadau i dai / marchnadoedd • Diboblogi – demograffeg oedran yn newid a chydbwysedd economaidd yn ogystal ag iaith • Cadw swyddi / incwm o dwristiaeth yn yr ardal • Seilwaith trafnidiaeth, gyda diboblogi • Gwaith cynnal a chadw teithio llesol, hawliau tramwy cyhoeddus ac ati ar ei hôl hi • Anodd darparu adnoddau ar gyfer ymgysylltu â chymunedau a chynlluniau lleoedd • Effeithiau cymdeithasol ac economaidd draen dawn • Diwylliant brodorol yn cael ei golli i ail gartrefi • Prinder sgiliau / staff ar gyfer busnesau yn yr ardal • Creu trefi noswylio sy'n rhoi pwysau ar seilwaith lleol • Pobl yn symud yn cynyddu'r galw am wasanaethau • Mae newidiadau demograffig yn rhoi pwysau ar wasanaethau gofal cymdeithasol

• Tueddiadau mudo gyda theuluoedd yn symud yn ôl i Ogledd Cymru	• Mwy o alw am wasanaethau a llai o bobl i'w hariannu

Trafodwyd Ysgogiadau a Rhwystrau cynllunio hefyd (sef cyfleoedd, mecanweithiau neu gyfyngiadau i bolisi cynllunio llwyddiannus a system rheoli datblygu), a chodwyd y materion canlynol:

Ysgogiadau:

- Hyblygrwydd o ran targedau tai, angen adlewyrchu'r angen lleol am fathau o dai
- System gynllunio yn hanfodol ar gyfer darparu'r cartrefi cywir
- Mwy o nodweddion diwylliannol / cymdeithasol tebyg rhwng Gogledd-orllewin Cymru a Chanolbarth Cymru
- Mae'n well cael cynllunio demograffig yn hytrach na chynllunio daearyddol
- Mae angen sensitifrwydd i amrywiadau rhanbarthol

Rhwystrau:

- Nid yw gwneud penderfyniadau'n ganolog yn adlewyrchu anghenion ardaloedd lleol
- Mae'n anodd gwahaniaethu materion cymdeithasol a diwylliannol oddi wrth faterion economaidd
- Diffyg cysylltiadau strategol rhwng polisïau iaith a meysydd eraill, fel cynllunio
- Gwarchodaeth statudol i ardaloedd yn ymestyn i'r amgylchedd ond nid iaith
- Polisi rhanbarthol ar Ogledd Cymru yn rhoi pwyslais ar Ogledd-ddwyrain Cymru, gan fygwch yr iaith a diwylliant mewn mannau eraill
- Y Gymraeg yn cael ei thangynrychioli mewn meysydd o'r Llywodraeth

Trafodwyd blaenoriaethau ar gyfer y FfDC, a daeth y pwyntiau allweddol canlynol i'r amlwg:

- Cydraddoldeb cyflogaeth yn rhanbarthol
- Cost cyflenwi gwasanaethau yn uwch mewn ardaloedd gwledig
- Angen edrych ar amcangyfrifon cyflenwi tai – gor-ddarparu un math o dai
- Angen sensitifrwydd ieithyddol mewn datblygu
- Cydgysylltiad rhwng cenedlaethol a rhanbarthol, a bod yn ystyriol o wahaniaethau rhwng rhanbarthau
- Dylai'r Llywodraeth edrych yn ehangach i leoli adrannau ar draws y wlad
- Y Llywodraeth yn ysgogi cyfleoedd cyflogaeth
- Angen i gynllunio weithio i gadw pobl ifanc yn yr ardal
- Bod yn flaengar – angen edrych y tu hwnt i'r 'status quo'

- Polisïau i arafu mewnfudo e.e. tai – er enghraifft, dim ond yn gallu gwerthu tai ar ôl nifer o flynyddoedd

4.2 Economaidd

CRYFDERAU	GWENDIDAU
• Cysylltiadau trawsffiniol • Y Gymraeg • Gweithgareddau hamdden ar y tir • Y tir (Yr Wyddfa) • Twristiaeth • Ansawdd yr amgylchedd • Ansawdd bywyd • Digwyddiadau (e.e. Diwrnod Help for Heroes) • Cysylltedd digidol (dwyrain – gorllewin) • Horizon – Wylfa • Porthladd Caergybi	• Digidol yn yr ardaloedd gwledig • Graddfa amaethyddol ffermydd (cydweithredol) • Twristiaeth – diffyg pen-gogyddion o ansawdd da i wasanaethu'r sector • Incymau isel • Cysylltiadau trafnidiaeth • Gwerth tir / hyfywedd • Agosrwydd Caer ar gyfer manwerthu • Poblogaeth myfyrwyr • Canfyddiadau negyddol • Dim arbedion maint • A55 • Enillwyr a chollwyr twristiaeth • Teithiau awyr • Warysau yr M6 • Parciau busnes gwag • Cynllunio gwan ar gyfer lleoedd • Ail gartrefi

CYFLEOEDD	BYGYTHIADAU
• Ansawdd bwyd / brand • Cyrsiau addysg uwch / bellach • Bargen Twf y Gogledd-orllewin • Y Gymraeg • Sector ynni • Carbon isel • Ynni'r llanw / gwynt • Digidol / gweithio o gartref • Swyddi gwerth uchel digidol • Twf BBaChau • Micro-gynhyrchu • Rhoi diben newydd i ganol trefi / mannau gwag • Cynghorau tref • Deorfeydd • Ymestyn y tymor twristiaeth • Twf poblogaeth • Dyfodol manwerthu • Cael datblygu yn y lle iawn • Cydweddu sgiliau (e.e. ynni) • Amaeth-dwristiaeth • Dyfodol gwasanaethau llywodraeth • Prentisiaethau • Mentrau cymdeithasol	• Cymorth ariannol amaethyddol (ar ôl Brexit) • Cadw pobl ifanc • Safleoedd segur / hyfywedd • Peilonau newydd • CDLl ddim yn cynnal y Gymraeg • Myfyrwyr lleol yn erbyn allfudo • Stryd fawr Llandudno • Manwerthu ar y rhyngrwyd • Dyfodol gwasanaethau cyhoeddus • Angen y farchnad

Trafodwyd Ysgogiadau a Rhwystrau cynllunio hefyd, a chodwyd y materion canlynol:

Ysgogiadau:

- Cynllunio cymunedol yn erbyn cydbwysedd cymunedol – angen ystyried yr effeithiau ar bobl leol, gan ystyried materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol
- Dylid cefnogi datblygiad ynni tra phenodedig drwy'r system gynllunio
- TAN 8 fersiwn 2 – mae angen canllawiau polisi ategol wedi'u diweddaru
- Byddai rheolau newid defnydd ar gyfer swyddfeydd / lle preswyl yn helpu ailddefnyddio adeiladau
- Byddai mannau y gellir eu haddasu yn darparu hyblygrwydd a defnyddioldeb gwell o adeiladau
- Mae integreiddio trafnidiaeth gyhoeddus yn hanfodol i helpu pobl i symud o gwmpas
- Mae angen ystyried tueddiadau'r dyfodol mewn polisi cynllunio er mwyn paratoi ar gyfer y dyfodol
- Dylai modelau perchnogaeth gymunedol gael eu hystyried i helpu cyflawni prosiectau

Rhwystrau:

- Mae angen i gysylltiadau'r Gogledd / De gael eu gwella i gefnogi cysylltedd gwell
- Mae angen i froceriaeth fod yn well er mwyn helpu cyllido a chefnogi mentrau

Trafodwyd blaenoriaethau ar gyfer y FfDC, a daeth y pwyntiau allweddol canlynol i'r amlwg:

- Mae angen polisïau i gefnogi twristiaeth drwy'r flwyddyn
- Dylid nodi anghenion seilwaith i gefnogi prosiectau strategol
- Safleoedd parod – dylai'r FfDC helpu nodi, blaenoriaethu a chefnogi paratoi / cyflenwi safleoedd strategol
- Dylai llesiant cenedlaethau'r dyfodol fod yn thema gyson
- Dylai gwarchod a gwella'r amgylchedd gael eu cynnwys yn y FfDC

4.3 Amgylcheddol

CRYFDERAU	GWENDIDAU
• Ansawdd yr amgylchedd naturiol • Datganiadau Ardal • Adnodd ynni adnewyddadwy • Yr A55 a'r rhwydwaith Rheilffyrdd • Parciau Cenedlaethol / AHNEau / ATAau • Ynni adnewyddadwy a'r buddion yn ei sgil • Asedau treftadaeth • Asedau twristiaeth • Defnyddiau newydd ar gyfer adeiladau rhestredig	• Effaith bosibl twristiaeth • Ail gartrefi • Gormod o ffocws ar anghenion datblygwyr nid anghenion cymunedau (tai) • Ansawdd aer / mwy o draffig • Gorbwyslais ar yr amgylchedd wrth ystyried datblygu – angen mwy o bwyslais ar nodweddion economaidd a chymdeithasol • Trafnidiaeth gyhoeddus yn anodd – angen gwasanaethau gwell • Cysylltiadau o'r gogledd i'r de
CYFLEOEDD	**BYGYTHIADAU**
• Newid moddol / gwell trafnidiaeth gyhoeddus • Twristiaeth a chydbwyso'r effaith ar yr amgylchedd • SDCau • Amaethyddiaeth • Datganiadau Ardal • Ynni adnewyddadwy / cynlluniau adnewyddadwy cymunedol • Meithrin gallu / safonau yn y Parc Cenedlaethol • Cynllun ar gyfer newid hinsawdd • Cynllunio ar gyfer twf mewn twristiaeth • Cydnabod mantais y sectorau amaethyddol i'r amgylchedd • Y Gymraeg a sefydlu'r gymuned • Pwyntiau gwefrio cerbydau trydan • Cyflogaeth gerllaw pobl leol / lleihau'r angen i deithio • Cynlluniau rheoli traethlin • Newid hinsawdd ac amrywiaeth amaethyddol	• Perygl llifogydd – dyrannu safleoedd a chynnal aneddiadau presennol • Ynni adnewyddadwy a'i ddifrod i'r amgylchedd • Gwydnwch yr A55 a'r rhwydwaith rheilffyrdd wrth i'r rhanbarth dyfu • Dyfodol amaethyddiaeth o ran cyllido • Tywydd eithafol / yr hinsawdd yn newid • Erydiad twristiaeth mewn Parciau Cenedlaethol • Cydbwysedd rhwng amaethyddiaeth a gwarchod yr amgylchedd • Cynlluniau rheoli traethlin • Gallu i addasu adeiladau lleol

• Morlynnoedd llanw • Mwynau a gwastraff ar raddfa ranbarthol • Cyfle economaidd ar gyfer economi gylchol • Cysylltedd grid i alluogi cyfleoedd • Y FfDC a'r Cynllun Morol	

Trafodwyd Ysgogiadau a Rhwystrau cynllunio hefyd, a chodwyd y materion canlynol (bob un ohonynt yn ysgogiadau):

- Defnyddio treftadaeth / adeiladau rhestredig
- Gwarchod dynodiadau cenedlaethol
- Cyfleoedd ar gyfer twristiaeth / twristiaeth gynaliadwy
- SDCau a rheolaeth well ar ddŵr mewn datblygiadau
- Angen i ystyried ymagweddau gwahanol at fodelau tai / cipio gwerth tir / hyfywedd datblygiadau

Trafodwyd blaenoriaethau ar gyfer y FfDC, a daeth y pwyntiau allweddol canlynol i'r amlwg:

- Byddai dod â sectorau at ei gilydd yn helpu annog cydweithio a meddwl / cyflawni mwy effeithlon o ran mentrau
- Byddai rheoli'r amgylchedd yn helpu gwarchod a gwella nodweddion ac asedau pwysig yn well
- Dylai Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru gael eu hintegreiddio gyda'r FfDC i gefnogi gwarchod a gwella'r amgylchedd
- Mae angen gwelliannau i gysylltiadau / cysylltedd teithio er mwyn helpu symud pobl a nwyddau o amgylch Cymru
- Mae angen cefnogi symud at ddulliau cynhyrchu ynni adnewyddadwy a'r agenda datgarboneiddio drwy'r FfDC
- Mae angen ystyried ynni a chysylltiadau grid fel cyfanrwydd a'u cefnogi drwy'r FfDC wrth i ni symud tuag at ddulliau cynhyrchu ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio
- Dylai seilwaith gwyrdd / lles cymdeithasol fod yn themâu pwysig ar gyfer hwyluso dulliau datblygu cynaliadwy
- Dylai rheolaeth ar adnoddau naturiol gael ei hintegreiddio mewn datblygiadau newydd

4.4 Crynodeb

4.4.1 Pwyntiau allweddol

Roedd y deg o bwyntiau allweddol a godwyd gan randdeiliaid â buddiant yn rhanbarth Gogledd Cymru fel a ganlyn:

1. Balchder yn y Gymraeg fel ased diwylliannol ond gydag amrywiadau mawr ar draws Gogledd Cymru fel rhanbarth, yn enwedig rhwng Gogledd-orllewin a Gogledd-ddwyrain Cymru
2. Cysylltiadau trawsffiniol cryf a chysylltiadau trafnidiaeth a phorthladdoedd da, ond angen gwelliant o ran mynediad at deithiau awyr a gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yn ogystal â chysylltiadau gogledd-de
3. Cysylltedd digidol cryf a chefnogaeth i weithio symudol a gweithio gartref
4. Diwydiant ynni adnewyddadwy sefydledig a chyfleodd gyda Bargen Twf y Gogledd
5. Dibyniaeth ar amaethyddiaeth a phryderon ynghylch cyllido ar ôl Brexit
6. Pryder ynglŷn â cholli diwylliant a'r Gymraeg gyda mewnfudo ac allfudo, yn ogystal ag ail gartrefi
7. Gwarchod yr amgylchedd naturiol a hanesyddol fel prif atynnwr i bobl sy'n dewis byw ac aros yn y rhanbarth, gyda thwristiaeth fel ased economaidd
8. Pryderon ynghylch newidiadau mewn demograffeg gyda diboblogi a phoblogaeth sy'n heneiddio, gan ystyried effeithiau draen dawn, mewnlifiad pobl sydd wedi ymddeol ac alltudion yn dychwelyd ar ôl Brexit
9. Pwysau cynyddol ar wasanaethau a llai o gyllid
10. Anghenion tai i ddibynnu llai ar y datblygwyr mawr a darparu'r mathau o dai sydd eu hangen ar bobl yn hytrach na beth mae'r farchnad yn ei ddarparu

4.4.2 Sut gallai neu sut dylai'r FfDC helpu'r rhanbarth

Awgrymodd rhanddeiliaid y gallai neu y dylai'r FfDC helpu'r rhanbarth yn y deg ffordd ganlynol:

1. Gwarchod yr amgylchedd naturiol a hanesyddol, gyda chyfle i integreiddio â datganiadau ardal, mwynau, gwastraff, cynllunio arfordirol a chynllunio morol
2. Gwarchod y Gymraeg ac asedau diwylliannol cysylltiedig
3. Cydnabod y cysylltiadau a'r cysylltedd trawsffiniol pwysig
4. Hwyluso twristiaeth gynaliadwy
5. Ysgogi buddsoddiad a chefnogi arallgyfeirio a lledaenu economi'r dyfodol yn fwy cyfartal
6. Cefnogi'r diwydiant amaethyddol a diwydiannau cynradd cysylltiedig ar ôl Brexit
7. Caniatáu hyblygrwydd o ran targedau tai, ailddefnyddio adeiladau presennol, y farchnad dai ac edrych o'r newydd ar gydbwysedd cymunedol gyda mwy o reolaeth dros ail gartrefi a phoblogaeth anfrodorol
8. Mwy o allu ar gyfer mentrau a datblygiadau sy'n cael eu harwain gan y gymuned, ac annog ymgysylltiad cymunedau yn gynnar wrth wneud cynlluniau a datblygu
9. Annog datblygu a fydd yn helpu cadw pobl ifanc yn yr ardal
